**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2024 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | S E Keeton | M B Lewis |
| N L Matthews | M S Tribe | T M White |
| R A Williams | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R D Lewis

---

**37 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**38 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

**39 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim.

**40 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod.)

**#(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2022/1134/RES - Adeiladu hyd at 108 uned breswyl a gwaith cysylltiedig (manylion mynediad, edrychiad, tirlunio, cynllun, graddfa yn unol ag amodau 6,8 a 9 caniatâd cynllunio amlinellol 2015/1584 a roddwyd ar 13 Mai 2016) (2008/0996 ac a oedd yn amrywio 2002/1000) ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn SA1 Glannau Abertawe ar Lain E7 ac E8, Glannau Abertawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

Anerchodd Emily Avery (asiant o RPS Group ar ran Associated British Ports) y Pwyllgor.

Anerchodd Phil Baxter (asiant ar gyfer yr ymgeiswyr, Pobl) y Pwyllgor.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
adroddwyd am 1 llythyr gwrthwynebu hwyr.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb Adran 106.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.45 pm

**Cadeirydd**